

The Rt Hon James Cleverly
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2338

03 Ionawr/January 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary,

PEEL 2022/23 Arolwg ymateb rhanbarthol y gogledd orllewin i droseddau difrifol a threfnedig.

PEEL 2022/23 An inspection of the north-west regional response to serious and organised crime.

Yn unol â'r statud, ysgrifennaf atoch gyda fy sylwadau ar arolwg ymateb rhanbarthol y gogledd orllewin i drosedd difrifol a threfnedig Arolwg Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) o Hil a Phlismaona.

As required by statute, I am writing to you with my comments on His Majesty's (HM) Inspectorate of Constabulary, Fire and Rescue Service (HMICFRS), PEEL 2022/23, An inspection of the north-west regional response to serious and organised crime.

Mae'n wych fod yr Arolygaeth wedi rhoi gradd ragorol i Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarth y Gogledd Orllewin am ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'r Arolygaeth wedi canmol ymdriniaeth arloesol NWROCU i gynllunio ariannol a gwella arbenigedd ei weithlu.

It is excellent that the Inspectorate has graded the North West Regional Organised Crime Unit (NWROCU) as outstanding at tackling serious and organised crime (SOC). The Inspectorate have praised the NWROCU's innovative approach to financial planning and improving the expertise of its workforce.

Rwyf yn siomedig fodd bynnag fod yr Arolygaeth wedi ystyried Heddlu Gogledd Cymru yn annigonol o ran ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig. Fy mlaenoriaeth gyffredinol o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ydy sicrhau fod cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel, fod dioddefwyr a phobl fregus yn derbyn cymorth, a bod gan y cyhoedd hyder mewn plismaona a'r system cyfiawnder troseddol. Mae casgliadau'r adroddiad hwn wedi codi sawl pryder. Cyn rhyddhau'r

I am disappointed however, that the Inspectorate have deemed North Wales Police as inadequate at tackling serious and organised crime. My overarching priority within my Police and Crime Plan is to ensure that North Wales communities are safe, victims and vulnerable people feel supported and the public have confidence in policing and the criminal justice system. The conclusions of this report have raised several concerns and prior to the release of this report, I requested a deep dive

adroddiad hwn, mi wnes i ofyn am gyflwyniad at wraidd y mater ar droseddau difrifol a threfnedig yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol, lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol. Rwyf wedi derbyn sicrwydd gan yr Heddlu fod gwaith yn parhau er mwyn gwella eu harferion a sicrhau fod yr argymhelliad gan yr Arolygaeth wedi'i gwblhau.

Roedd pedair elfen i'r argymhelliad. Roedd y ddwy gyntaf yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth y gweithlu o'u rôl wrth ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig a datblygu gweithdrefnau er mwyn adolygu a nodi dysgu ac arfer da. Mewn ymateb i'r Arolwg, mae'r Heddlu wedi clustnodi Ditectif Brif Arolygydd Troseddau Difrifol a Threfnedig er mwyn gweithio tuag at newid y diwylliant o fewn y gweithlu. Fel rhan o'r rôl hon, bydd y Ditectif Brif Arolygydd yn ymgynghori'n rheolaidd hefo'r Swyddogion Cyfrifol Arweiniol. Byddant yn datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn addysgu ac egluro pwysigrwydd troseddau difrifol a threfnedig ar draws yr Heddlu a mesur cyflawniad wrth wella'r pedwar ymateb (paratoi, atal, gwarchod ac ymlid).

Nodwyd o fewn yr adroddiad fod yr Heddlu'n methu bodloni rhai galwadau troseddau difrifol a threfnedig dadansoddol. Gofynnodd am welliant yn eu model cyrchu er mwyn nodi, rheoli ac ymchwilio bygythiadau. Hysbyswyd fod yr Heddlu'n rhoi cymorth dadansoddol adweitheddol hefo cymorth rhagweithiol cyfyngedig oherwydd galw dadansoddol. Roedd hyn yn atal yr Heddlu rhag cydnabod materion yn codi. Mewn ymateb i'r arolwg, mae'r Heddlu wedi dyrannu ei allu presennol er mwyn bod yn gydnaws â bygythiadau troseddau difrifol a

presentation on SOC at my Strategic Executive Board, where I hold the Chief Constable to account. I am assured by the Force that work is ongoing to improve their practices and ensure that the recommendation by the Inspectorate is completed.

There were four elements to the recommendation with the first two focussing on the workforce's understanding of their role in tackling SOC and developing procedures to review and identify learning and good practice. In response to the Inspection the Force have assigned a Detective Chief Inspector (DCI) to SOC to work towards changing the culture within the work force. As part of this role the DCI will liaise regularly with the Lead Responsible Officers (LRO), develop a communications strategy to educate and explain the importance of SOC across the Force and measure performance in improving the 4P (prepare, prevent, protect and pursue) response.

It was identified within the report that the Force was unable to meet some analytical SOC demands and required an improvement in their resourcing model to identify, manage and investigate threats. It was reported that due to analytical demand, the Force was providing mainly reactive analytical support with limited proactive support. This was preventing the Force from recognising emerging issues. In response to the inspection the Force has reallocated its existing capacity to align to specific SOC threats. This change will assist the Force in implementing

threfnedig. Bydd y newid hwn yn cynorthwyo'r Heddlu wrth weithredu eu proses orchwyllo newydd o ran sut y nodir, rheolir ac ymchwilir bygythiadau troseddau difrifol a threfnedig.

Ar y cyfan, rwyf yn cael fy nghalonogi fod Heddlu Gogledd Cymru'n gweithio er mwyn gwella a rhoi mesurau mewn lle er mwyn cwblhau'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn. Fel cynrychiolydd y cyhoedd, mi wnaf barhau i fonitro cynnydd yr Heddlu o ran cwblhau'r argymhellion hyn. Rhoddir sicrwydd i gyhoedd Gogledd Cymru drwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

their new tasking process in how SOC threats are identified, managed and investigated.

Overall, I am encouraged that North Wales Police are working to improve and have put measures in place to complete the recommendations highlighted in this report. As the public representative, I will continue to monitor the Force's progress in completing these recommendations to provide reassurance to the North Wales public via my Strategic Executive Board.

Yn gywir Yours sincerely



Andy Dunbobbin

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner